# Sgiliau Hanfodol Cymru

## CYFATHREBU

**Nodiadau pwysig:**
1. Mae pob lefel o'r sgil yn ymgorffori'r lefelau blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw.
2. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol Cyfathrebu' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.

## Lefel 4

Mae hyn yn golygu arddangos eich sgiliau wrth:
- ddatblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau cyfathrebu
- monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth fel y bo angen
- cyflwyno canlyniadau eich gwaith
- gwerthuso eich strategaeth gyffredinol.

**D.S**. Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod yn cwrdd â gofynion C4.1, C4.2 a C4.3 yng nghyd-destun un gweithgaredd.

### C4.1 Datblygu strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**C4.1.1**
Datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau cyfathrebu dros gyfnod estynedig

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- nodi'n eglur y canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau
- cynllunio eich defnydd o sgiliau cyfathrebu dros gyfnod estynedig
- dewis, ar sail ymresymu, y dulliau sy'n sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen, gan gynnwys coladu a chofnodi gwybodaeth
- canfod ffynonellau perthnasol o wybodaeth, gan gynnwys pobl a deunydd cyfeiriol, ac ymchwilio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

### C4.2 Monitro cynnydd

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**C4.2.1**
Monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth, fel y bo angen, er mwyn sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen mewn gwaith yn cynnwys o leiaf:
- **un** drafodaeth grŵp am bwnc cymhleth
- **un** ddogfen o 1,000 o eiriau o leiaf am bwnc cymhleth

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- werthuso gwybodaeth a gafwyd yn sgil trafodaethau gydag eraill ac mewn deunydd cyfeiriol, gan nodi barn, rhagfarn bosibl a gwybodaeth wyrdroëdig wrth farnu

- cyfuno gwybodaeth drwy adnabod yr amryw ddadleuon a chyflwyno eich dehongliad eich hun mewn dull sy'n dod â'r wybodaeth ynghyd yn gydlynol
- cyfleu gwybodaeth berthnasol am bynciau cymhleth yn fanwl gywir ac mewn ffurf, strwythur ac arddull sy'n addas i'ch pwrpas
- cymryd rhan arweiniol mewn trafodaethau grŵp, gan strwythuro'r hyn rydych yn ei ddweud yn glir a defnyddio geirfa, goslef a phwyslais priodol wrth wneud eich pwyntiau
- ysgrifennu testunau estynedig, gan strwythuro'r deunydd a chyflwyno dadleuon a gwybodaeth mewn dilyniant rhesymegol, a sicrhau bod y sillafu, yr atalnodi a'r ramadeg yn gywir
- ymateb yn graff i gyfraniadau pobl eraill
- monitro'ch defnydd o sgiliau cyfathrebu ac adfyfyrio'n feirniadol arnyn nhw, gan gynnwys:
    - cael adborth gan eraill
    - nodi'r dewisiadau a wnaed a barnu pa mor effeithiol oedden nhw
- addasu eich strategaeth fel y bo angen er mwyn goresgyn anawsterau a chynhyrchu canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen.

.

## C4.3 Cyflwyno canlyniadau a gwerthuso strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**C4.3.1**
Cyflwyno canlyniadau eich gwaith, gan ddefnyddio o leiaf **un** cyflwyniad llafar ffurfiol

**C4.3.2**
Gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth a nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu ymhellach

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- drefnu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol yn glir, gan gynnwys eich canlyniadau ac egluro'r hyn rydych yn ei ddweud trwy wneud cymariaethau, a rhoi enghreifftiau sy'n berthnasol i ddiddordebau'r gynulleidfa
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau geiriol, gweledol a thechnegau eraill i egluro pwyntiau cymhleth mewn dull sy'n addas i'ch pwrpas, eich pwnc a'ch cynulleidfa
- amrywio eich defnydd o eirfa a mynegiant gramadegol er mwyn cyfleu effeithiau penodol, galluogi pobl i weld mân wahaniaethau, cyfleu pwyslais a chynnal diddordeb eich cynulleidfa
- gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth, gan nodi'r ffactorau oedd wedi dylanwadu ar y canlyniadau
- nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu ymhellach.

## Datganiad mynediad
Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.

ESW Comm Level 4 welsh